Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Cyd-bwyllgor Archwilio |
| Lleoliad: | Pencadlys yr Heddlu |
| Dyddiad: | 24ain Gorffennaf 2018 |
| Amser: | 10:00 – 14:00 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Malcolm Macdonald (MM)<br>Mr Martin Evans (ME)<br>Mr Andre Morgan (AM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Dafydd Llywelyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Jason Blewitt, Rheolwr Archwilio (SAC) (JB)<br>Mr Clive FitzGerald, Cyfarwyddwr Archwilio (TIAA) (CF)<br>Ms Karen Davies (HDP) (KD)<br>Ms Sarah Welsby (HDP) (SW)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Cymorth Sicrwydd SCHTh |
| **Ymddiheuriadau:** | Ms Vicky Davies, TIAA (VD)<br>Mr Alasdair Kenwright (AMSK) |
| **Datganiadau o Ddiddordeb:** | Dim. |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 19eg Mawrth 2018) | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | Cynnydd |
| **A38 2017/18** | **Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ar Bwyllgorau Archwilio a dyletswyddau'r PSA gael eu cyhoeddi.** | **Ar y gweill** |
| **A38 2017/18** | **Trafod gwahodd AHEM i gyfarfodydd penodol y CBA fel rhan o'r adolygiad o'r Cylch Gorchwyl.** | **Ar y gweill** |
| **A39 2017/18** | **Newid "dylent ddwyn" i "rhaid dwyn" yn yr adran ar wyngalchu arian o fewn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.** | **Cwblhawyd** |
| **A40 2017/18** | **Diolch i'r tîm cyfieithu am eu gwaith caled yn helpu'r Heddlu a SCHTh i gyrraedd y lefel gyfredol o ran cydymffurfiaeth â'r safonau Iaith Gymraeg.** | **Cwblhawyd** |
| **A44 2017/18** | **Newid y fframwaith Llywodraethu Corfforaethol fel y trafodwyd uchod.** | **Cwblhawyd** |
| **A45 2017/18** | **Trafod Datganiad Rheoli'r Heddlu yn y seminar ym mis Mehefin.** | **Cwblhawyd** |
| **A47 2017/18** | **Trafod o fewn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol y modd y mae'r tabl 'Materion Llywodraethu** | **Ar y gweill** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Arwyddocaol' yn cael ei ddangos yn y ddogfen a chynnal ymchwil i adnabod ymarfer gorau o fewn meysydd eraill.** | |

Croesawodd MM bawb i'r cyfarfod, gan roi croeso arbennig i Clive Fitzgerald, y Cyfarwyddwr Archwilio o'r TIAA.

Rhoddwyd ymddiheuriadau ar ran Alasdair Kenwright a Vicky Davies.

**A51 2017/18 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2018 a Materion yn Codi**

Nodwyd eu bod yn dal i aros am ganllawiau gan CIPFA ynghylch Cyd-bwyllgorau Archwilio, a chydnabuwyd y byddai rhai camau gweithredu megis adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau yn gorfod aros hyd nes y cyhoeddir y canllawiau.

Cadarnhaodd y PS fod Sarah Cooper o AHEM wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod y CBA ym mis Medi. Pwysleisiodd y Pwyllgor fod cael aelod o AHEM yn bresennol yn gam cadarnhaol ymlaen.

Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

**Penderfyniad: Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd, derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg Mawrth 2018 fel cofnod cywir.**

**A52 2017/18: Adroddiad Blynyddol draft y Cyd-bwyllgor Archwilio 2017/18**

Nododd MM bod gwall teipio ar dudalen 2, oedd angen ei newid i '*along*' . Gofynnwyd hefyd bod y frawddeg ar dudalen 2 sy'n cyfeirio at gyfnod mewn swydd yr aelodau yn cael ei harall eirio i hybu dealltwriaeth.

Nododd yr Aelodau eu bod yn hapus â'r adroddiad a diolchodd MM i'r PS am yr adroddiad.

**Cam Gweithredu A52: Gwneud 2 newid, fel y trafodwyd uchod, i Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio 2017/18 a'i gyhoeddi yn dilyn hynny.**

**A53 2017/18: Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2017/18**

Cyflwynodd CF yr adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2017/18 i'r Pwyllgor, gan nodi mai barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw eu bod yn fodlon, ar sail yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Brif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys brosesau rheoli risg a llywodraethu rhesymol ac effeithiol mewn lle.

Dywedodd CF ei bod wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol iawn o ran Archwilio Mewnol. Maent wedi cynnal 23 adolygiad sicrwydd, gyda 7 o'r rheiny'n cael eu hasesu fel sicrwydd sylweddol, sydd yn nifer uchel. Aseswyd 15 o'r adolygiadau fel rhesymol ac un yn unig fel sicrwydd cyfyngedig.

Nododd MM yn gadarnhaol bod nifer o weithgareddau wedi cael eu hadolygu ac wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn, gan roi hyder i'r Pwyllgor bod yr Heddlu'n cymryd y camau angenrheidiol i wella a symud ymlaen yn dilyn argymhellion.

Diolchodd MM i CF a holl dîm TIAA.

**A54 2017/18: Llythyron Sylwadau Drafft 2017/18 ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl**

Argymhellodd y Pwyllgor bod y llythyrau'n cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i'w cymeradwyo.

**Cam Gweithredu A54: Argymhellwyd bod Llythyr Sylwadau drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei lofnodi gan y llofnodwyr priodol.**

**A55 2017/18: Ymateb rheolwyr i'r ymholiadau archwilio'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.**

Dywedodd y PSA bod angen gwneud newid ar dudalen 11, gan nodi bod angen newid yr ymateb i gwestiwn 1s 17/18. Esboniodd y PSA eu bod wedi darparu ymateb 16/17 a 17/18 o fewn y ddogfen a gellir gweld bod llawer o'r cynnwys yr un peth, er bod ymateb 17/18 wedi'i gryfhau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r strwythurau llywodraethu.

**A56 2017/18: Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol 2017/18.**

Roedd yr adroddiad yn mynegi barn ynghylch p'un ai yw datganiadau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys yn rhoi darlun cywir a

theg o'u sefyllfa ariannol ar 31ain Mawrth 2018 ac o'u hincwm a'u gwariant am y flwyddyn.

Esboniodd JB bod cytundeb wedi ei wneud yn 2016/17 gyda'r CHTh a'r PG i dreialu dedleins cynharach ar gyfer paratoi'r cyfrifon a chyflwyno'r archwiliad yn 2016-17 a 2017-18. Dywedodd JB bod hyn yn gyflawniad sylweddol i'r tîm ariannol o ystyried y pwysau arnynt a'r gwaith oedd ei angen i gyrraedd y dedlein hwn.

Nododd JB bod nifer o bwyntiau dysgu wedi'u nodi, gan gynnwys sicrhau ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith cyn yr archwiliad ac argaeledd staff ariannol yn ystod y cyfnod archwilio. Nodwyd y rhain a chymerir camau priodol i wella a lleihau'r pwysau yn y dyfodol.

Esboniodd JB y byddai'r adran 'camddatganiadau heb eu cywiro' yn yr adroddiad sy'n nodi'r camddatganiadau nad ydynt yn cael unrhyw ddylanwad ar eu barn yn cynyddu gydag amser. Oherwydd yr amserlen cwblhau cynnar a'r pwysau dyddiol, cydnabu SAC y bydd mwy o ffocws yn cael ei roi ar addasu'r materion mwy arwyddocaol, a byddai'r adran hon felly yn cynyddu. Esboniwyd bod y gronfa ailbrisio wrth gefn wedi ei cham-ddatgan gan £287,000 a chytunodd Swyddogion i adolygu a chywiro hyn yn 2018/19.

Esboniwyd nad oedd unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol yr arferion cyfrifyddu a'r adrodd ariannol. Ni nodwyd unrhyw wendidau yn y trefniadau rheoli mewnol ac nid oedd unrhyw bryder ynghylch annibyniaeth a gwrthrychedd eu tîm archwilio.

Diolchodd MM i JB am waith SAC.

**A56 2017/18: Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer 2017/18 – Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon y Prif Gwnstabl.**

Dywedodd MM ei fod yn teimlo bod derbyn Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y PG a'r CHTh ar ffurf dogfen ar y cyd yn gam cadarnhaol a diolchodd i'r rhai a fu'n ymwneud â'r gwaith hwn.

Esboniodd y PSA bod Seminar Datganiad Cyfrifon wedi'i gynnal ym mis Mehefin, lle cafodd y Pwyllgor gyfle i fynd trwy'r Datganiad Cyfrifon yn fanwl iawn. Ers hynny mae'r tîm ariannol wedi newid y dogfennau fel y cynigwyd. Diolchodd y PSA i bawb a fu'n gysylltiedig â'r broses am eu cyfraniad i'r dogfennau. Eglurodd y PSA, fel y gwyddai'r aelodau, bod yna rai gofynion newydd ar gyfer yr adroddiad naratif eleni ac yr adeiladir ar hyn yn y dyfodol.

Dywedodd MM fod y seminar ym mis Mehefin yn ddefnyddiol o ran adolygu'r cyfrifon a'r dogfennau cysylltiedig gyda thrafodaethau buddiol yn cymryd lle. Diolchodd y PSA i'r aelodau am eu hamser yn mynd trwy'r cyfrifon, gan nodi bod eu cyfraniad a'u hadborth yn y seminar wedi bod yn fuddiol iawn.

**Cam Gweithredu A56: Argymhellodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer 2017/2018 i'r CHTh a'r PG i'w gymeradwyo.**

**A57 2017/18: 2017/18 Adroddiad Cynnydd yr Archwilwyr Mewnol (SICA)**

Cyflwynodd CF Adroddiad Cynnydd 2017/18 yr Archwilwyr Mewnol (SICA) i'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio ar y cynnydd yng ngwaith Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2017/2018.

**A58 2017/18: Adroddiadau'r archwilwyr mewnol**

Cafodd pum adroddiad eu cwblhau ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ac felly fe'u cyflwynwyd gerbron y pwyllgor i'w hystyried.

**a) Rheolaeth Strategol a Llywodraethu Corfforaethol**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda dau argymhelliad Blaenoriaeth 2 a dau argymhelliad blaenoriaeth 3. Esboniodd CF bod yr holl argymhellion wedi cael eu derbyn. Newidiwyd y Cyd Fframwaith Llywodraethu Corfforaeth i gynnwys y trefniadau llywodraethu yn unol â'r gofynion. Cytunwyd hefyd cynnal gwerthusiad llawn o'r strwythur llywodraethu ym mis Hydref 2018. Esboniodd CF bod ganddynt bellach Gylch

Gorchwyl ar gyfer pob Bwrdd a Grŵp o fewn y strwythur llywodraethu yn unol â'r ddau argymhelliad blaenoriaeth 3.

Dywedodd MM bod cael siart yn dangos y strwythur llywodraethu'n glir yn ddefnyddiol iawn. Mae'n helpu mewn cyfarfodydd i ddangos yn eglur pa fwrdd sy'n gyfrifol am beth.

Eglurodd y PS i'r Pwyllgor ei bod yn cyfarfod gyda Rheolwr Llywodraethu'r Heddlu pob mis i sicrhau bod trefniadau Llywodraethu'r Heddlu yn porthi trefniadau Llywodraethu SCHTh a *vice versa*. Mae hyn yn helpu i sicrhau gwaith partneriaeth da ac hefyd yn gyfle i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi.

**b) Diogelwch Rhwydwaith TGCh**

Canlyniad: Sicrwydd rhesymol gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 2. Eglurodd CF bod argymhelliad wedi ei wneud i gyflwyno offeryn amgryptio e-bost i alluogi gwybodaeth bersonol sensitif i gael ei rhannu'n ddiogel fel y bod angen, ac argymhellodd bod mesurau rheoli electronig yn cael eu cyflwyno i orfodi polisi cyfryngau symudadwy Heddlu Dyfed-Powys, gan sicrhau mai dim ond offer wedi eu hamgryptio'n llawn ac a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys a ddefnyddir.

Esboniodd y CC bod y 2 argymhelliad hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Sicrwydd. Byddai papur opsiynau yn ymwneud ag amgryptio e-bost yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y bwrdd. Mae rhai prosesau mewn lle yn barod i gryfhau'r broses o rannu gwybodaeth swyddogol sensitif yn ddiogel drwy e-bost. Mae'r argymhelliad hwn yn derbyn sylw.

Holodd AM a oedd CF yn gwybod am unrhyw sefydliad ag arferion da yn y maes hwn y gallai HDP gysylltu â hwy.

Eglurodd CF bod ganddynt hwy eu hunain feddalwedd monitro porth ar bob dyfais a'u bod yn defnyddio cof bach USB wedi'u hamgryptio. Mae'r rhain eisoes mewn lle ac yn gweithio'n effeithiol.

**c) Rheoli Newidiadau TGCh**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 2 ac un argymhelliad gweithrediadol. Eglurodd CF bod yr argymhelliad cyntaf yn ymwneud â'r cynnig arfaethedig i wahanu adnoddau TGCh rhwng Tîm Rheoli Digwyddiadau a Thîm Cyflawni.

Byddai hyn yn cael ei dreialu cyn gynted â phosib ac unrhyw newidiadau o ran cynhyrchiant ac effeithiolrwydd yn cael eu hadnabod a'u hasesu. Yr ail argymhelliad oedd cyflwyno adroddiad hawdd ei ddiffinio i alluogi adnabod ac adrodd yr holl newidiadau a wnaed drwy Workstream Tracker.

Rhoddodd y CC ddiweddariad ar y cynnydd gan sicrhau bod problemau wedi eu hadnabod gan TG. Bellach mae yna gynllun/strategaeth TG mewn lle fydd yn helpu'r Tîm TG i adnabod blaenoriaethau ac amserlenni allweddol a chaiff staff eu neilltuo ar gyfer prosiectau penodol.

**d) Adolygiad Sicrwydd o Drin Hawliadau Cyfreithiol – Ymgyfreitha –Gwersi a Ddysgwyd**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol. Hwn oedd y cyntaf o adolygiadau 2018/19. Eglurodd CF mai'r canlyniad cyffredinol oedd bod yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn rheoli hawliadau sifil yn unol â'r Gweithdrefnau Adennill Sifil. Yn yr adolygiad ceir un argymhelliad blaenoriaeth 2 a phedwar argymhelliad blaenoriaeth 3. Mae'r argymhelliad blaenoriaeth 2 yn cynnig bod trefniadau hollgwmpasog ar gyfer y broses trin hawliadau yn cael eu dogfennu.

Holodd AM a oedd yr argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn gan yr Heddlu. Eglurodd CF mai ymateb Rheolwyr i'r argymhelliad hwn oedd eu bod yn dilyn Gweithdrefnau Sifil 1998, a'u bod yn fodlon bod hyn yn effeithiol o ran ffurfio'r Gweithdrefnau Adrannol, ond ei bod yn bwysig bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn. Dywedodd CF cyhyd â bod pawb yn dilyn yr un broses ac yn hollol ymwybodol o Reolau'r Weithdrefn Sifil er mwyn sicrhau cysondeb, bod y TIAA yn fodlon â'r ymateb hwn. Holodd MM a fyddai'r TIAA yn cymryd camau dilynol i asesu effeithiolrwydd y drefn hon. Sicrhaodd CF y pwyllgor y byddai hynny'n digwydd.

**e) Adolygiad cydymffurfio o Weithdrefnau'r System Rheoli Ansawdd (QMS)**

Canlyniad: Ni ddarparwyd asesiad sicrwydd cyffredinol gan mai adolygiad gweithrediadol yn hytrach nag adolygiad sicrwydd oedd hwn.

Eglurodd CF mai pwrpas yr adolygiad hwn oedd rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y cynllun blynyddol, gan esbonio bod 3 adolygiad o fewn y cynllun sy'n edrych ar gydymffurfiad ag ISO o fewn y System Rheoli Ansawdd, ac mai hwn oedd yr adolygiad cyntaf o'r tri. Y canlyniad cyffredinol oedd bod archwiliadau a gynhaliwyd o

fewn yr Uned Cefnogi Gwyddonol a'r Uned Troseddau Seiber yn cydymffurfio'n gyffredinol â gofynion ISO, gyda nifer fach o gamau cywirol yn cael eu hadnabod a'u hadrodd fel rhan o fethodoleg adrodd y System Rheoli Ansawdd. Eglurodd CF nad oedd unrhyw argymhellion ar hyn o bryd ac y cynhelir y trydydd adolygiad erbyn diwedd y flwyddyn.

**A59 2017/18: Adolygiad Dilynol Diwedd Blwyddyn 2017/18**

Cyflwynwyd Adolygiad Dilynol Diwedd Blwyddyn 2017/18 y TIAA i'r Pwyllgor. Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar y camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr mewn perthynas â'r holl argymhellion sy'n codi o'r adolygiadau archwilio mewnol. Mae casgliadau'r adolygiad hwn yn dangos bod 21 o argymhellion wedi cael eu gweithredu (66% o'r holl argymhellion), bod 1 yn y broses o gael ei weithredu a bod gan 10 ddyddiad cwblhau diwygiedig.

Dywedodd AM yn gadarnhaol bod cynnydd nodedig wedi ei wneud.

O ran diogelwch TG, holodd MM a oedd y ffaith nad oedd Microsoft Office yn cefnogi Windows 7 yn broblem. Eglurodd y CC eu bod wedi canfod nifer fach o beiriannau oedd yn defnyddio Windows 7 a bod angen eu diweddaru; mae'r gwaith hwn eisoes dan sylw ac ar y gweill.

Eglurodd CF y byddai Windows 7 yn derbyn cefnogaeth tan Ionawr 2019. Dywedodd y CC eu bod yn gobeithio y byddai'r gwaith diweddaru wedi ei gyflawni erbyn Medi 2018.

**A60 2017/18: 2018/19 Adroddiad SICA**

Roedd y crynodeb yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio am y cynnydd yng ngwaith mewnol Heddlu Dyfed-Powys hyd at y 12fed Gorffennaf 2018.

Eglurodd CF eu bod wedi cael cyfarfod llwyddiannus iawn yn ddiweddar gyda nifer o arweinwyr adran i benderfynu cwmpasau addas ar gyfer yr adolygiadau perthnasol, a bod TIAA yn awr yn cynhyrchu'r memorandwm cynllunio archwiliadau.

Dymunai'r PSA ddwyn un eitem i sylw'r Aelodau sef y cynllun archwilio blynyddol a gytunwyd. Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod yna archwiliad o'r Cyfriflyfr Cyffredinol oherwydd fe'i trafodwyd wrth edrych ar y Datganiad Cyfrifon. Roedd angen hefyd cael adolygiad manwl o Reolaeth Ariannol. Cynigodd y PSA i'r aelodau eu bod yn newid yr archwiliad Cyfriflyfr Cyffredinol yn y cynllun am adolygiad archwiliad mewnol o'r trefniadau Rheolaeth Ariannol. Derbyniodd yr aelodau'r newid a chytunwyd y byddai hyn yn fuddiol.

**Penderfyniad A60 2017/18: Cytunodd yr Aelodau i'r cynnig i newid Cyfriflyfr Cyffredinol yn y cynllun archwilio blynyddol i archwiliad mewnol o Drefniadau Rheolaeth ariannol.**

Gofynnodd y PS, gan fod TIAA hefyd yn ddarparwyr ar gyfer y tri Heddlu a SCHTh arall yng Nghymru, a ystyriwyd cymharu'r cynlluniau blynyddol ac, a oedd yna fwriad i greu adroddiadau cymharol lle y bo'n addas. Gofynnwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r CBA a oedd modd cael adroddiad cymharol mewn perthynas â gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg gan y byddai hynny'n ddefnyddiol wrth symud ymlaen.

Eglurodd CF eu bod yn y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud adroddiad cymharol cyffredinol o'r cynlluniau ar draws yr Heddluoedd ond nid un oedd yn edrych yn benodol ar archwilio. Nid oedd unrhyw gynlluniau i gynnal un yn y flwyddyn gyfredol, fodd bynnag, dywedodd CF os oedd pobl yn teimlo bod angen un, yna gellid ei ystyried. Eglurwyd er mwyn gwneud adroddiad cymharol byddai'n rhaid i bob Heddlu deimlo'n gysurus a chytuno i gymryd rhan. Dywedodd CF y byddai'n gofyn i bob ardal a fyddent yn barod i gymryd rhan mewn adroddiad cymharol ac i rannu eu casgliadau mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.

**Cam Gweithredu A602017/18: CF i gysylltu ag ardaloedd eraill yng Nghymru i ofyn am eu barn ynghylch rhannu canlyniadau mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg mewn adroddiad cymharol.**

Dywedodd MM y gellir gosod yr adroddiad cymharol yn yr adran gaeedig/cyfrinachol o'r agenda os oedd yr ardaloedd yn gyndyn i rannu'r adroddiad cymharol yn gyhoeddus.

**A61 2017/18: Cofrestrau Risg Corfforaethol sylweddol yr Heddlu**

Eglurodd y CC ei bod wedi ei gytuno yn y cyfarfod diwethaf bod unrhyw risgiau newydd neu sylweddol yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio, yn hytrach na thrafod holl Gofrestr Risg Corfforaethol yr Heddlu. Eglurwyd bod yr adroddiad ar y Gofrestr Risg Corfforaethol Sylweddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor wedi cael ei drafod mewn Bwrdd Plismona diweddar.

Aeth y CC drwy'r adroddiad gan dynnu sylw ar y risgiau a'r prosesau a gyflwynwyd i liniaru'r risgiau. Un o'r risgiau a danlinellwyd oedd archwiliadau meddygol fforensig yn ymwneud â phlant. Eglurodd y CC bod opsiynau yn ymwneud â hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â/lliniaru'r risg.

Pwysleisiodd y CHTh bod cyswllt agos rhwng y risg hwn a gallu'r Bwrdd Iechyd ac er ei fod ar Gofrestr Risg yr Heddlu mae'n fater i Fyrddau Iechyd ar draws Cymru ac nid ardal Dyfed-Powys yn unig. Cydnabu'r Pwyllgor bod yr Heddlu wedi'i gyfyngu o ran ei allu i liniaru'r risg hwn oherwydd ei gyswllt agos â gwaith y Byrddau Iechyd.

Nododd AM fod cael adroddiad yn tanlinellu'r risgiau sylweddol yn ddefnyddiol. Tynnodd AM sylw at y pryder bod Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad sylweddol o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol i gynnal Adolygiadau Iechyd a Diogelwch. Cydnabu'r CC y pryder hwn ac eglurodd eu bod wedi cyflogi hyfforddwr Iechyd a Diogelwch yn ddiweddar gan obeithio y byddai hynny'n helpu i fynd i'r afael â'r mater. Mae hyfforddiant Iechyd a Diogelwch yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chaiff ei ledaenu yn ôl blaenoriaeth.

Cydnabu ME bod cael adroddiad ar y risgiau sylweddol yn unig yn fuddiol, fodd bynnag holodd a fyddai'n werth newid fformat y ddogfen ychydig i gynnwys rhai manylion pellach, megis adran sy'n nodi'r camau gweithredu a'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob risg ynghyd â pherchennog a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Derbyniodd CC hyn ac argymhellodd y dylid yn y dyfodol, cynnwys mwy o fanylion yn yr adroddiad i'w hystyried gan y Pwyllgor.

**Cam Gweithredu A61 2017/18: Ychwanegu mwy o fanylion yn yr adroddiad am Gofrestr Risg Corfforaethol yr Heddlu i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

Diolchodd MM i'r Heddlu am ddarparu'r adroddiad a chydnabu bod y fformat cyfredol yn gam cadarnhaol yn hytrach na derbyn y gofrestr risg yn ei chyfanrwydd.

**A62 2017/18: Diweddariad am Ddatganiad Rheoli'r Heddlu**

Gwnaeth MM sylw ar ran ei hun a AK fod y ddogfen yn ddefnyddiol tu hwnt.

Eglurodd y PG bod dwy ddogfen i'r Pwyllgor i'w hystyried sef Datganiad Rheoli'r Heddlu 2018 a'r Crynodeb Cyflwr Plismona. Eglurwyd ei bod yn cymryd llawer o amser ac adnoddau i baratoi DRhH, ond eu bod wedi derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth AHEM ynghylch ansawdd eu cyflwyniad, fodd bynnag maent yn dal i aros am yr ymateb swyddogol.

Dywedodd y CHTh y dylid nodi bod yna beth ymateb negyddol i Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, gyda nifer o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn amheus ohono. Fodd bynnag nododd y CHTh ei fod ef yn cefnogi'r cysyniad o gael Datganiad Rheoli'r Heddlu, ac yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol iddo fel Comisiynydd o ran archwilio ac adolygu dibenion yr Heddlu.

Holodd MM sut yr oedd Datganiad Rheoli'r Heddlu yn gweddu â gwaith dyddiol a strwythurau staffio a ph'un ai y byddai'n cael ei gyflwyno i feysydd fel hyfforddiant ac archwilio ac ati. Eglurodd y PG y dylai pob swyddogion fod yn ymwybodol o Gynllun yr Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r PG. Esboniwyd hefyd ei bod yn bosib na fyddai pob swyddog yn ymwybodol o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu; fodd bynnag byddai hon yn ddogfen fyw y parheir i adeiladu arni i'r dyfodol.

Esboniodd y CHTh bod Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ystyried Asesiad Strategol yr Heddlu sy'n edrych ar flaenoriaethau'r Heddlu, adroddiad Datganiad Cyflwr y Genedl AHEM a Chynllun yr Heddlu a Throseddu, gan ddwyn popeth at ei gilydd mewn un ddogfen sy'n ystyried ymhle y mae'r heddlu'n sefyll mewn perthynas â phob haen ac adroddiad arall.

Holodd ME ymhle yr oedd Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ffitio i mewn i'r Cyd-bwyllgor Archwilio o ran archwilio.

Dywedodd MM bod y ddogfen yn cydgysylltu â nifer fach o feysydd eraill gan gynnwys y Cofrestrau Risg a'r effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol ac ati. Bydd Datganiad Rheoli'r Heddlu hefyd yn galluogi'r Pwyllgor i weld beth y mae'r heddlu'n ei wneud yn dda.

Dywedodd y PG y byddent yn cyflwyno mwy o gwestiynau i AHEM am sut y maent yn gweld y Cyd-bwyllgor Archwilio yn defnyddio Datganiad Rheoli'r Heddlu yn y dyfodol.

**A63 2017/18: Unrhyw Faterion Eraill**

**a) Aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Cynigodd y PS y syniad o recriwtio aelod ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio, gan ddod â'r cyfanswm i bump. Byddai hynny'n helpu i sicrhau cworwm ymhob cyfardod.

Cytunodd y Panel â'r cynnig a theimlent y byddai hwn yn gam cadarnhaol.

Eglurodd y PS y byddent felly yn hysbysebu ym mis Medi gan roi diweddariad ynghylch unrhyw ddatblygiadau yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Penderfyniad A63 2017/18: Recriwtio aelod ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio a chychwyn hysbysebu ym mis Medi.**

**b) Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol**

Eglurodd MM nad oedd cofnodion Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ar yr agenda gan fod y cyfarfod wedi'i ohirio. Cyflwynir y cofnodion felly i'r cyfarfod nesaf ym mis Medi.

**Daeth y Cyfarfod i ben am 11:55 o'r gloch**
**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 19eg Medi 2018**

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 24ain Gorffennaf 2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif y penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | I'w weithredu gan |
| **A51 2017/18** | **Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd, derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2018 fel cofnod cywir.** | **SCHTh** |
| **A56 2017/18** | **Argymhellodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer 2017/18 i'r CHTh a'r PG i'w gymeradwyo.** | **Aelodau** |
| **A60 2017/18** | **Cytunodd yr Aelodau i'r cynnig i newid y Cyfriflyfr Cyffredinol yn y cynllun archwilio blynyddol i archwiliad mewnol o Drefniadau Rheolaeth ariannol.** | **Aelodau** |
| **A63 2017/18** | **Recriwtio aelod ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio a chychwyn hysbysebu ym mis Medi.** | **SCHTh** |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 24ain Gorffennaf 2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w weithredu gan |
| **A52 2017/18** | **Gwneud 2 newid, fel y trafodwyd, i Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio 2017/18.** | **SCHTh** |
| **A54 2017/18** | **Argymhellwyd bod Llythyr Sylwadau drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei lofnodi gan y llofnodwyr priodol.** | **CHTh a'r PG** |
| **A56 2017/18** | **Argymhellodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer 2017/2018 i'r CHTh a'r PG i'w gymeradwyo.** | **CHTh a'r PG** |
| **A60 2017/18** | **CF i gysylltu ag ardaloedd eraill yng Nghymru i ofyn am eu barn ynghylch rhannu canlyniadau mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg mewn adroddiad cymharol.** | **TIAA** |
| **A61 2017/18** | **Ychwanegu mwy o fanylion yn yr adroddiad am Gofrestr Risg Corfforaethol yr Heddlu i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.** | **Heddlu** |